**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 17 Tachwedd 2020**

**Presennol:** Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen a Beryl Salisbury.

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim**

**Cofnodion cyfarfod 20 Hydref 2020**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Einir Thomas.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

4.1 Cae Chwarae;- Roedd y gwaith ar yr offer chwarae yn parhau. Dywedodd y clerc fod modd prynnu sel ar gyfer llenwi'r bylchau rhwng y teils rwber ar y we. Cynigodd Cyng. Furlong dreialu rhai cyn gynted ag y byddai'r tywydd yn addas.

4.2 Llochesi Fws:- Cyng. Roedd Victor Owen wedi archwilio'r llochesi ac wedi glanhau, diheintio a chwynnu o amgylch pob un. Roedd hefyd wedi ailosod sgriwiau i ddiogelu'r paneli lle bo angen. Nid oedd angen gwaith pellach arnynt ar hyn o bryd. Dywedodd Cyng. Furlong y dylai'r gwaith yma gael ei ddogfennu fel rhan o raglen gynnal a chadw ehangach ar asedau'r Cyngor. Cytunwyd y byddai Cyng. Furlong yn gweithio gyda'r Cyng. Victor Owen a'r clerc i wneud hyn.

4.3 Wefan – roedd y gwaith hwn yn parhau.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

**5. Penderfyniadau Cynllunio:** Dim

5.1 VAR/2020/46 Bryn Ednyfed, Caergeiliog –- caniatâd.

5.2 FPL/2020/159 Coedlys, Caergeiliog -- caniatâd.

**6. Ceisiadau Cynllunio**

6.1 VAR/2020/60 Ty Newydd,Llanfair yn Neubwll

Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (08)(Cynllun tirwedd) a (09)(Cynlluniau a Gymeradwywyd) o caniatâd cynllunio rhif 32C128F (Codi annedd) er mwyn caniatáu

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………….

dyluniad diwygiedig a chyflwyno cynllun tirlunio ar ôl i'r gwaith ddechrau – dim gwrthwynebiad.

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd:

i. yr adroddiad ariannol am y cyfnod 1.10.2020 hyd at 31.10.2020
ii. chysyniadau a datganiadau banc,
iii. cyfrifon 2020/21 hyd yma.

Cyfrif Cyfredol £17,459.72, Cyfrif Cadw £3,938.47

7.1 **Gwariant tebygol**

Cafwyd trafodaeth am wariant tebygol hyd at Fawrth 2021, byddai'r clerc yn paratoi adroddiad ariannol manwl cyn trafod praesept 2021/22.

**8. Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Hydref) | £243.61 | GMS Garden Services | £120.00 |
| Archwiliad Cae Chwarae | £45.36 | | |

Cytunwyd i dalu y rhain

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

9.1 Dogfen Ymgynghori: Canllawiau statudol drafft – Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau

9.2 Arddangosfa Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

9.3 Cwestiynau cyffredin wedi'r cyfnod clo 9/11/20

9.4 Trefniadau Archwilio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y Dyfodol

9.5 Partneriaeth Un Llais Cymru a Star Leaf (cyfarfodydd fideo)

9.6 Gwasanaeth bws i Safle Llu Awyr. - Roedd Cyng. Gwilym Jones wedi rhoi gwybod i CSYM nad oedd bysiau'n stopio i ollwng gweithwyr wrth safle'r Llu Awyr - roedd y mater wedi'i ddatrys bellach.

9.7 Cysylltu â'r Cyngor - Pryderon, Cwynion a Chanmoliaeth

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………..

9.8 Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal - Dywedodd Cyng. Celfyn Furlong ei fod yn fodlon cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfodydd yn y dyfodol.

9.9 Newyddlen Etholiadol LlC - Hydref

9.10 Canlyniadau’r Arolwg ar Weithio o Bell - Cyfeiriodd ymatebwyr at nifer o faterion yr oeddent yn eu hystyried yn fanteisiol ac anfanteisiol ond yn seiliedig ar y canlyniadau cyffredinol a'r ffaith bod dwy ran o dair o'r ymatebwyr (66%) wedi dweud yr hoffent gadw'r hawl i gynal cyfarfodydd ar lein. Argymhellwyd y dylid newid y gyfraith er mwyn rhoi caniatâd i barhau i gynnal cyfarfodydd anghysbell yn y dyfodol.

9.11 Datganiad - Pwyllgor Gwaith yn cytuno i godi ffi flynyddol ar gyfer casglu gwastraff gardd – Bydd CSYM yn codi £35 am gasglu’r bin gwyrdd o Ebrill 2021.

**10. Adroddiadau Cynghorwyr**

10.1 Roedd MônFM ar y rhestr fer yng Ngwobrau Radio Cymunedol 2020.

**11. Cyfarfod Nesaf – 19 Ionawr 2021.**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….